**Cyflwyniad**

Mae'r canllawiau hyn yn nodi trefniadau rheoli'r Brifysgol i sicrhau bod gweithwyr, myfyrwyr ac ymwelwyr â'n campysau yn cael cymorth ar unwaith os ydynt yn mynd yn sâl neu'n cael eu hanafu yn y gwaith.

**Egwyddorion Cyffredinol**

Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r Brifysgol gael:

- Blychau cymorth cyntaf gyda chyflenwadau digonol.
- Unigolyn neu unigolion a benodir i ofalu am drefniadau cymorth cyntaf.
- Gwybodaeth i'r holl weithwyr yn dweud wrthynt am y trefniadau cymorth cyntaf.

**Asesu ein trefniadau cymorth cyntaf**

Mae'r Brifysgol yn sefydliad mawr gydag ystod amrywiol o waith a gweithgareddau myfyrwyr, yn ogystal â darparu cyfleusterau megis lleoliadau lletygarwch, Canolfan Chwaraeon, a Chanolfan y Celfyddydau.

Er mwyn gallu darparu trefniadau priodol ar gyfer Adrannau neu Gyfadrannau, datblygwyd y rhestr wirio ganlynol, F018- Rhestr Wirio Asesu Risg Cymorth Cyntaf Adrannol/Adeiladau. Bydd y rhestr wirio yn cael ei chwblhau ar gyfer pob adeilad, gyda chydweithrediad y meddianwyr a'r Tîm IDA.

Mae'r rhan fwyaf o dîm diogelwch y Brifysgol wedi'u hyfforddi ac yn meddu ar y cymhwyster Cymorth Cyntaf yn y Gwaith. Yn ogystal, mae cydweithwyr yn y ganolfan chwaraeon, er enghraifft, achubwyr bywyd, yn swyddogion cymorth cyntaf hyfforddedig. Bydd gan leoliadau eraill, megis Canolfan y Celfyddydau, swyddog cymorth yn rhan o'u shifft i allu ymateb i argyfwng cymorth cyntaf yn ystod oriau agor.

Bydd gweithgareddau neu leoliadau addysgu ac ymchwil yn cael eu blaenoriaethu gan ddibynnu ar y peryglon sy'n gysylltiedig, er enghraifft, bydd ymgymryd â gwaith ymarferol mewn labordy/gweithdy yn golygu bod angen swyddog cymorth cyntaf o fewn pellter rhesymol, fel rheol o fewn yr adeilad. Ar gyfer gweithgareddau sydd â lefel perygl is, megis gweithdai iaith, bydd yn ddigonol penodi unigolyn sy'n gyfarwydd â lleoliad y blwch cymorth cyntaf agosaf ac sy'n gwybod sut i ofyn am gymorth gan gydweithwyr hyfforddedig.

Mae gweithgareddau swyddfa yn beryglon lefel isel, felly mae cael swyddog cymorth cyntaf, wedi'u hyfforddi i lefel Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng yn y Gwaith (1 diwrnod) yn yr adeilad ar gyfer llai na 50 o bobl, yn ddigonol. Bydd adeiladau gyda mwy na 50 o bobl neu sydd â pheryglon lefel uwch yn gofyn am swyddog cymorth cyntaf wedi'u hyfforddi i lefel Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod).

Gan weithio mewn cydweithrediad ag adrannau eraill, bydd y Brifysgol yn anelu at annog rhannu adnoddau ar gyfer cymorth cyntaf, lle bynnag y bo modd.

Ar hyn o bryd mae gan y Brifysgol dros 70 o staff wedi'u hyfforddi i safon Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod) a thros 230 o staff wedi'u hyfforddi i safon Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng (1 diwrnod) ar ei chofrestr, gellir dod o hyd i'r rhain yma: Cymorth Cyntaf: Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd , Prifysgol Aberystwyth

**<u>Swyddogion Cymorth Cyntaf Penodedig</u>**

Mae unigolyn a benodir yn goruchwylio eich trefniadau cymorth cyntaf. Mae hyn yn cynnwys gofalu am yr offer, cyfleusterau a ffonio'r gwasanaethau brys yn eich tîm, adran, neu adeilad.

Gallwch gael mwy nag un unigolyn penodedig, ac nid oes angen iddynt gael unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Rhaid i unigolyn penodedig fod ar gael bob amser pan fo pobl yn y gwaith.

**<u>Swyddogion Cymorth Cyntaf a Hyfforddiant</u>**

Efallai y byddwch chi'n penderfynu bod angen rhywun sydd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, a elwir weithiau'n swyddog cymorth cyntaf neu gymhorthydd cyntaf. Nid oes unrhyw reolau pendant ynghylch faint o swyddogion cymorth cyntaf y dylech eu cael. Mae'n dibynnu ar natur eich gwaith a'i leoliad.

Mae swyddogion cymorth cyntaf yn cael eu hyfforddi gan ddarparwr hyfforddiant cymwys mewn:

- Cymorth Cyntaf mewn Argyfwng yn y Gwaith (EFAW) - ar y lefel hon maent yn gymwys i roi cymorth cyntaf mewn argyfwng i rywun sydd wedi'u hanafu neu sy'n mynd yn sâl yn y gwaith.
- Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (FAW) - wedi'u cymhwyso i lefel EFAW ond hefyd yn gallu defnyddio cymorth cyntaf ar gyfer amrywiaeth o anafiadau a chlefydau.


Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn trefnu hyfforddiant cymorth cyntaf ar draws y Brifysgol. Darperir hyfforddiant yn seiliedig ar anghenion yr Adran a gweithgareddau eu gwaith.

Hyfforddiant Cymorth Cyntaf: Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, Prifysgol Aberystwyth

**<u>Ble i ddod o hyd i'r blwch cymorth cyntaf agosaf</u>**

Bydd gan bob adeilad o leiaf un blwch cymorth cyntaf. Bydd gan leoliad bob blwch cymorth cyntaf arwydd yn nodi ei leoliad, ynghyd ag enw'r swyddog cymorth cyntaf agosaf a lleoliad y diffibriliwr.

Gofynnir i'r adrannau gadw eu manylion yn gyfredol, gellir cael eglurhad o unrhyw wybodaeth ar y posteri gan hasstaff@aber.ac.uk




**<u>Beth i'w roi mewn blwch cymorth cyntaf</u>**

Dylai cynnwys eich blwch cymorth cyntaf fod yn seiliedig ar eich asesiad o anghenion cymorth cyntaf. Fel canllaw, os yw gweithgareddau gwaith yn peri risg isel (er enghraifft, gwaith desg) gallai'r blwch cymorth cyntaf gynnwys:

- taflen gyda chanllawiau cyffredinol ar gymorth cyntaf (er enghraifft, taflen cyngor sylfaenol IDA ar gymorth cyntaf yn y gwaith)
- Plastrau di-haint wedi'u lapio'n unigol o feintiau amrywiol

- Clytiau di-haint
- Padiau llygaid di-haint
- Rhwymynnau Triongl wedi'u lapio'n unigol, di-haint yn ddelfrydol
- Piniau Diogelwch
- Dresin clwyfau di-haint mawr a chanolig eu maint, wedi'u lapio'n unigol,
- Menig Tafladwy

Dyma restr cynnwys a awgrymir, os oes angen eitemau ychwanegol arnoch ar gyfer eich gweithgareddau yn y gwaith, cysylltwch â'r Tîm IDA hasstaff@aber.ac.uk i gael cymorth pellach.

**Cynnal a chadw neu ailosod cynnwys blwch cymorth cyntaf**

Bydd y tîm IDA yn darparu eitemau newydd ar gyfer yr holl flychau cymorth cyntaf, llenwch y Ffurflen gais ailosod cynnwys cymorth cyntaf, F021.

Dylai pob swyddog cymorth cyntaf ac unigolion penodedig wirio blychau cymorth cyntaf adrannol yn rheolaidd ac ailosod eitemau a ddefnyddir yn ôl yr angen.

Er mwyn lleihau cost a gwastraff gormodol, rydym wedi derbyn cyngor gan ein darparwr hyfforddiant ac nid ydym bellach yn cynghori amnewid hen eitemau ar unwaith ar yr amod bod y deunydd pacio yn gyfan a'r eitem heb ei difrodi. Cysylltwch â'r Tîm IDA am arweiniad pellach os bydd eich blwch yn cynnwys eitemau wedi dyddio.

**Cymorth cyntaf i'r rhai sy'n gweithio gartref a'r mannau cydweithio**

Os ydych chi'n gweithio gartref, yn ymgymryd â gweithgareddau gwaith risg isel, nid oes angen offer cymorth cyntaf arnoch y tu hwnt i anghenion domestig arferol.

Bydd gan bob bws mini a cherbydau amaethyddol flwch cymorth cyntaf ynddynt. Ni fydd gan geir prifysgol bob amser flwch cymorth cyntaf. Os yw'r rheswm dros eich taith yn cynnwys gweithgareddau a allai olygu risg o fân anafiadau, dylech ystyried rhoi blwch cymorth cyntaf yn eich cerbyd. Gellir benthyca blychau cymorth cyntaf ar gyfer digwyddiadau untro, teithiau ac ati gan y Tîm IDA ar gais drwy e-bostio, hasstaff@aber.ac.uk.

Mae partneriaid a thenantiaid sy'n gweithio yn adeiladau'r brifysgol yn gyfrifol yn ôl y gyfraith am eu darpariaeth cymorth cyntaf eu hunain. Fodd bynnag, gellir gwneud trefniant ar y cyd gyda'r meddianwyr eraill, os yw'r ddwy ochr yn cytuno. Bydd angen cynnwys hyn yn y cytundeb ysgrifenedig (prydles neu gytundeb lefel gwasanaeth), lle bydd un cyflogwr yn cymryd cyfrifoldeb am gymorth cyntaf yr holl weithwyr ar y safle. I gael rhagor o gyngor ar gytundebau prydles neu lefel gwasanaeth, cysylltwch â Rheoli Gofod ac Eiddo ar space@aber.ac.uk.

**Diffibrilwyr**

Mae diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) yn beiriant electronig cludadwy sy'n gallu canfod rhythmau annormal y galon sy'n achosi ataliad ar y galon yn awtomatig a gall ddarparu'r sioc sydd ei angen i achub bywyd unigolyn gyda rhythm megis ffibriliad fentriglaidd (VF).

Mae gan y Brifysgol 11 diffibriliwr o fewn ei champysau. Gellir dod o hyd i'r rhain ar dudalen mapiau'r brifysgol trwy ddewis y tab Diffibrilwyr [Mapiau'r Brifysgol: Darganfod Aberystwyth , Prifysgol Aberystwyth] neu ar "The Circuit" gan y British Heart Foundation, [Defib finder – find the defibrillators nearest you.]

Mae'r holl gyrsiau hyfforddi cymorth cyntaf a ddarperir gan y Brifysgol yn cynnwys modiwl ar ddefnyddio AED. Gall ataliadau ar y galon ddigwydd i unrhyw un ar unrhyw adeg. Mae'r British Heart Foundation yn darparu adnoddau i ddysgu sut i wneud CPR i achub bywydau a sut i ddefnyddio diffibriliwr mewn argyfwng. [Learn CPR in 15 minutes | RevivR | BHF - BHF]

**Ystafelloedd Cymorth Cyntaf**

Mae un ystafell cymorth cyntaf yn adeilad William Davies, Campws Gogerddan.

Nid oes gan lawer o leoliadau ystafell cymorth cyntaf ac efallai y bydd angen amddiffyn preifatrwydd rhywun yn ddigymell os ydynt wedi'u hanafu neu'n sâl. Gellid cyflawni hyn trwy ddargyfeirio pobl ar lwybr arall neu ddefnyddio baneri sy'n codi o'r llawr a allai gynnig rhywfaint o breifatrwydd dros dro.

Os yw'r unigolyn sy'n sâl neu wedi'u hanafu mewn darlithfa neu ystafell seminar, wrth eu cynorthwyo, gall y swyddog cymorth cyntaf ofyn i fyfyrwyr eraill neu staff dirprwyol nôl cymorth; neu ofyn i eraill gamu allan o'r ystafell neu droi i ffwrdd i gynnig rhywfaint o breifatrwydd.

**Cludo Unigolion sy'n Dioddef Argyfwng Meddygol neu Salwch ar ein Safle**

Mewn achos o argyfwng meddygol difrifol, dylid ffonio'r gwasanaethau brys cyn gynted â phosibl (ar 9-999).

Dylid hefyd cysylltu â'r tîm Diogelwch ar 01970 622649. Bydd modd iddynt gyfeirio'r cerbyd brys at y digwyddiad a chynnig cymorth cyntaf pellach, os oes angen.

Os yw'r Swyddog Cymorth Cyntaf yn penderfynu nad yw'r sefyllfa yn argyfwng, ond bod angen asesiad a thriniaeth ysbyty ar yr unigolyn, dylid gwneud asesiad ynghylch y ffordd orau o gludo'r claf i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys.

Os gofynnir i aelod o staff fynd â'r unigolyn mewn cerbyd fflyd neu eu cerbyd eu hunain, bydd angen iddynt fod yn yrrwr awdurdodedig, a nodir o fewn trefniadau gyrwyr y Brifysgol - [Cerbydau : Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd , Prifysgol Aberystwyth]. Oni bai bod polisi yswiriant y cerbyd yn cynnwys defnydd busnes yn benodol, ni fyddai'r cerbyd, y gyrrwr nac unrhyw deithwyr yn cael eu cynnwys o dan yswiriant modur y gyrrwr eu hunain. Dylid nodi, os bydd damwain, na fydd y brifysgol yn atebol am adennill bonws dim hawliadau na cholli bonws dim hawliadau ac ati.

Gallai dewisiadau eraill gynnwys ffrind neu gydweithiwr i'r sawl sydd wedi'u hanafu yn cynorthwyo i gludo'r claf i'r adran ddamweiniau ac achosion brys, neu gellid ffonio am dacsi. Dylid codi tâl am unrhyw gostau i'r adran ar gyfer aelod o staff neu fyfyriwr.

Ar ôl cytuno ar ddull cludo, rhaid i'r swyddog cymorth cyntaf ystyried a ddylid teithio gyda'r sawl sy'n sâl neu wedi'u hanafu i'r adran ddamweiniau ac achosion brys. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o salwch neu anaf, faint o amser y mae'n debygol o gymryd i gyrraedd yr adran ddamweiniau ac achosion brys agosaf, a'r tebygolrwydd

y bydd yr unigolyn yn dirywio yn ystod y daith. Os yw hyn yn wir, rhaid i'r swyddog cymorth cyntaf fynd gyda'r sawl sy'n sâl / wedi'u hanafu a'u monitro.

Os yw gweithiwr yn teimlo'n sâl ac eisiau mynd adref, dylid gwneud ymdrechion i gysylltu â pherthnasau neu ffrindiau i'w casglu os oes angen. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd angen i reolwr llinell y gweithiwr drafod ffyrdd amgen i'w cludo adref gyda nhw (e.e. tacsi).

**Cofnodion**

Dylai pob swyddog cymorth cyntaf ac unigolion penodedig gofnodi unrhyw ddigwyddiad y maent yn ei fynychu trwy Weithdrefn Adrodd am Ddigwyddiad y brifysgol gan ddefnyddio'r ffurflen F007, sydd ar gael yma: Dogfennau  : Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd , Prifysgol Aberystwyth

**Hyfforddiant**

Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn trefnu hyfforddiant cymorth cyntaf ar draws y Brifysgol. Darperir hyfforddiant yn seiliedig ar anghenion yr Adran a gweithgareddau eu gwaith.

Hyfforddiant Cymorth Cyntaf: Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, Prifysgol Aberystwyth

**Talu am ddarpariaeth cymorth cyntaf**

Mae'r Brifysgol yn gwneud taliad blynyddol i staff sy'n gymwys i safon Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (3 diwrnod), a delir yn y gyflogres ym mis Rhagfyr.  I fod yn gymwys, rhaid i chi fod ar y rhestr o swyddogion cymorth cyntaf ar gyfer y cymhwyster hwn ar yr adeg hon o'r flwyddyn ac ar gael i ddarparu cymorth cyntaf i unrhyw un ar ein campysau.  Ni fydd unrhyw daliadau pro-rata yn cael eu gwneud pe bai'r cymhwyster yn dod i ben neu os yw'r swyddog cymorth cyntaf yn gadael eu swydd yn ystod y flwyddyn.

**Rhagor o Wybodaeth**

Cyngor sylfaenol ar gymorth cyntaf yn y gwaith (hse.gov.uk)  Cyngor sylfaenol ar gymorth cyntaf yn y gwaith (INDG347 hse.gov.uk)

Cymorth cyntaf yn y gwaith - Beth sydd angen i chi ei wneud? - Trosolwg - IDA

Cymorth cyntaf yn y gwaith: Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981. Canllawiau ar Reoliadau L74 (hse.gov.uk)

https://www.bhf.org.uk/